

AcademiWales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

#UnGwasanaethCyhoeddusCymru

Adroddiad Blynyddol 2019-20



Cynnwys

Croeso i Adroddiad Blynyddol 2019-20. Fe'i lluniwyd ar ffurf llinell amser sy'n amlygu ein prif gyflawniadau fesul cyfnod o dri mis.

Trosolwg y Cyfarwyddwr	3
Ebrill-Mehefin 2019	6
Gorffennaf-Medi 2019	10
Hydref-Rhagfyr 2019	13
Ionawr-Mawrth 2020	18

Ewch i'n gwefan i gael gwybod rhagor amdanom ni, y gwaith a wnawn, gyda phwy rydym yn gweithio a'n gwerthoedd:

llyw.cymru/academiwales

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Trosolwg y Cyfarwyddwr

Diolch i Jo Hicks



Gadawodd ein cyn-Gyfarwyddwr Jo Hicks ei rôl yn Academi Wales y llynedd i fod yn Gyfarwyddwr Grŵp ar gyfer Newid a Chyflawni yng Ngweinyddiaeth Gyfiawnder y DU. Roedd ei chyfraniad i Academi Wales yn amhrisiadwy a bydd hi'n chwith hebddi, ond mae hi wedi gadael ei hôl ar y miloedd lawer o bobl a helpodd drwy ei gwaith yma. Daw'r darn isod o flog olaf Jo ar gyfer gwefan Academi Wales:

"Hoffwn ddiolch o waelod calon i bawb sydd wedi fy nghefnogi, fy herio, ymgysylltu a chwerthin gyda mi yn ystod y 10 mlynedd diwethaf fel Cyfarwyddwr Academi Wales. Bydd fy rôl yn newid gyda ffocws ar y DU gyfan, ond Cymru yw fy nghartref, a gobeithio y byddaf yn gweld llawer ohonoch yn fy nghyd-destun newydd, ac edrychaf ymlaen at hynny."

Dymunwn y gorau i Jo ym mhopeth a wna yn y dyfodol.



Paul Schanzer, Cyfarwyddwr, Academi Wales

Mae'n gyfnod cyffrous iawn i mi ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr Academi Wales gan ei fod yn cyd-fynd â lansio dwy raglen newydd – Sbarcio'r Syniad a'r Rhaglen Darpar Gyfarwyddwyr, a'r Ysgol Aeaf yn ôl ym mis Chwefror 2020.

Rwy'n barod i fanteisio ar yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau, gan edrych ymlaen at weithio gyda chydweithwyr yn Academi Wales yr wyf yn eu hadnabod yn dda, ynghyd â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol ar draws y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol yn ehangach.



Ebrill – Mehefin 2019

Dechreuodd y flwyddyn gyflawni newydd gyda tîm Academi Wales yn brysur yn cynllunio ein gweithgareddau datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cyhoeddwyd amserlen lawn o raglenni agored a dosbarthiadau meistr a hwyluswyd llawer o ddigwyddiadau a chyrtsiau gennym. Cynhaliwyd ein Hysgol Haf flynyddol i Wasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan ym Mhrifysgol Llanbedr Pont Steffan am wythnos ddiwedd mis Mehefin. Mae'r Ysgol Haf yn cynnig cymaint i gynrychiolwyr. Roedd tîm Academi Wales yn hynod falch o gael ei anrhydeddu yng Ngwobrau Arwain Cymru 2019 gyda gwobr am "Ysbrydoli Arweinyddiaeth Wych".

Gorffennaf – Medi 2019

Mae'r haf yn gyfnod prysur i Academi Wales, wrth i ni weithio mewn partneriaeth ar draws y Sector Cyhoeddus i ddarparu ein dosbarthiadau meistr, sesiynau sgiliau a gweithgarwch yn ymwneud â newid ymddygiad ym myd arweinyddiaeth. Roeddem yn falch iawn o lansio ein rhaglen Arwain mewn Gwlad Ddwylieithog, cyfle datblygu unigryw i helpu arweinwyr i ddeall sut y gallant gyfrannu at greu diwylliant cadarnhaol o ddwyieithrwydd yn eu sefydliadau.

Hydref – Rhagfyr 2019


Ym mis Hydref lansiodd sawl rhaglen gyffrous yn Academi Wales. Defnyddiodd ein Rhaglen Darpar Gyfarwyddwyr ddysgu trwy drochi, myfyrion, gweithdai ymgeisio a dosbarthiadau meistr i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar gynrychiolwyr i ddechrau mewn rôl cyfarwyddwr o fewn dwy flynedd. Cynhaliwyd Uwchgynhadledd Arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan gennym yn Stadiwm Liberty, Abertawe. Rhoddodd yr Uwchgynhadledd gyfle unigryw i 150 o arweinwyr a gweision cyhoeddus o 108 o sefydliadau wella eu gwybodaeth am arferion arloesol ym myd arweinyddiaeth a mwy.

Ionawr – Mawrth 2020

Ym mis Ionawr 2020 lansiodd Gŵyl Sbarcio'r Syniad yng Nghymru am y tro cyntaf. Roedd 33 o ddigwyddiadau yn ystod yr ŵyl – 33 o gyfleoedd cyffrous i rannu syniadau ac arloesedd i wella neu newid ffyrdd o weithio ar draws Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Yn ystod mis Ionawr, dychwelodd tîm Academi Wales a chynrychiolwyr i amgylchoedd hardd Nant Gwrtheyrn ar gyfer Ysgol Aeof Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan 2020. Thema'r digwyddiad eleni oedd 'Arwain i Bawb – Creu Diwylliannau a Hinsodau' lle cafodd y cynrychiolwyr gyfle i glywed gan siaradwyr hygloed ac arbenigwyr ar ymddygiad ym myd arweinyddiaeth.

Cipolwg ar ein blwyddyn

Cyllideb
£1.2m



Roedd y gost gyfartalog
i gyflawni'n cyfateb i

£109.72

fesul
cynrychiolydd



Cynigiwyd



o ddigwyddiadau,
gweithdai, cyrsiau
a chynadleddau



6,350

o ddilynwyr Twitter,
mae hynny'n
gynnydd o

19%

o 2018-19

Gwelwyd ein fideos

23,800

o weithiau, ac roedd

167,400

o argraffiadau ar ein sianel



Ebril – Mehefin 2019

Newid a Datblygu Arweinyddiaeth

Ym mis Ebrill 2019, trosglwyddodd portffolio Arweinyddiaeth Glinigol GIG Academi Wales i Gwella Addysg Iechyd Cymru (HEIW) ynghyd ag arweinydd y portffolio, Jackie Parsons. Parhaodd Academi Wales i ddarparu cymorth hwyluso ar gyfer sesiynau cyflwyno'r prosiect a dysgu gweithredol ar gyfer y Rhaglen Arweinyddiaeth Feddygol yn ystod y cyfnod pontio hyd at ddiwedd y Rhaglen ym mis Medi 2019. Mae Academi Wales wedi cyflwyno'r rhaglen 14 mis glodfawr hon ers 2013, a dyma'r seithfed garfan, yn darparu dulliau datblygu arweinyddiaeth i dros 150 o arweinwyr clinigol a Chymrodorion clinigol o ystod eang o arbenigeddau.



Dyfarnwyd Gwobr Academi Wales am Ragoriaeth ym maes Datblygiad Sefydliadol yng 'Nghynhadledd a Gwobrau Cenedlaethol Rhagoriaeth mewn Rheoli Adnoddau Dynol y Gymdeithas Rheoli Pobl Gofal Iechyd' ym mis Mehefin 2019 i Ymddiriedolaeth Sefydliad GIG Royal Berkshire am ei gweithgarwch ymgysylltu helaeth mewn perthynas â gwerthoedd ac ymddygiadau. Arweiniodd ei gwaith at y cofair CARE – sef gwerthoedd 'Compassionate', 'Aspirational', 'Resourceful' ac 'Excellent'. Yn dilyn hyn datblygwyd fframwaith ymddygiadol yr Ymddiriedolaeth sydd bellach yn llywio nifer o brosesau Datblygiad Sefydliadol e.e. recriwtio, datblygu perfformiad a rheoli talent.

Arweinyddiaeth a Datblygiad Sefydliadol

ODN Europe yw adran Ewropeaidd y 'Rhwydwaith Datblygu Sefydliadau', cymdeithas broffesiynol ryngwladol o ymarferwyr datblygiad sefydliadol. Dros y chwe blynedd diwethaf, mae Academi Wales wedi gweithio mewn partneriaeth ag ODN Europe.

Fel un o'r cefnogwyr sefydlol, mae Academi Wales wedi bod yn rhan o alluogi ODN Europe i greu cymuned o ymarferwyr i ddarparu lle proffesiynol a diogel ar gyfer cysylltu a dysgu. Dros y blynyddoedd rydym wedi rhannu'r gwaith arwain a datblygu sefydliadol yng Nghymru gyda'r rhwydwaith, gan gynnal sesiynau datblygu a chynnal sesiynau poster, a dysgu gan eraill ledled Ewrop hefyd.

Ym mis Mai 2019, cefnogwyd cydweithwyr o'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gymryd rhan yn ei gynhadledd flynyddol 'Inspired by Difference' yn Amsterdam i'w galluogi i ddysgu sut i weld a meddwl am systemau'n wahanol ac yn ddyfnach er mwyn eu deall yn llwyr.



O'r chwith: Alex Machin, Cyngor Caerfyrddin; Paul Schanzer, Academi Wales; Sam Morgan, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr

Arweinyddiaeth ar Fyrddau ac wrth Lywodraethu

Gweithdai 'Byrddau Iach' gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac uwch arweinwyr

Cynhaliwyd dwy sesiwn rhyngweithiol arall gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngogledd a De Cymru ym mis Ebrill a mis Mehefin 2019.

Rhoddodd pob sesiwn hanner diwrnod drosolwg o sut olwg sydd ar fwrdd iach, beth mae'n ei wneud, ynghyd â dealltwriaeth o'r camau i wella byrddau. Roedd pob gweithdy rhyngweithiol yn cynnwys y cyfle i hunanasesu perfformiad eu bwrdd eu hunain a nodi themâu allweddol i wella perfformiad.

Seminar Arbenigol 'Trawsnewid perthnasau gwaith' ar gyfer uwch arweinwyr Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Ebrill 2019

Cafodd y seminar hon ei chyflwyno ar y cyd ag Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru i gynulleidfa wadd fawr ac roedd yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau datblygu ar gyfer y Fforwm Arweinwyr Cyhoeddus.

Prif ffocws y sesiwn oedd rhoi'r cyfle i feithrin perthnasau aeddfetach a chynyddu'r arfer o weithio mewn partneriaeth, gyda siaradwyr yn canolbwyntio ar feithrin ymddiriedaeth ar draws y system a chydweithio.



Gweithdy 'Gallu Perfformiad Uchel', Heddlu De Cymru

Ym mis Mehefin 2019, bu Academi Wales yn cynnal gweithdy rhyngweithiol gyda'r timau sy'n gyfrifol am blismona gwrthderfysgaeth ar draws pedwar heddlu Cymru. Buont yn archwilio ac yn dilysu eu harferion arwain a busnes presennol yn erbyn y nodweddion sy'n dynodi perfformiad uchel. Beirniadodd y tîm eu perfformiad eu hunain gan nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu i lywio a gwella perfformiad eu gwasanaethau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.



Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan: Rhaglen i Raddedigion

Ym mis Mehefin 2019, cynhaliwyd cyfarfodydd ledled Cymru gyda'r sefydliadau sy'n bartneriaid i Academi Wales ar y rhaglen.

Cynhaliwyd trafodaethau am gynnydd y rhaglen i raddedigion, yr heriau sy'n codi, ac arferion gorau i'w rhannu. Cafwyd adolygiad o'r modd y caiff yr MSc mewn Arweinyddiaeth a Llywodraethu ei gyflwyno, sy'n rhan annatod o'r rhaglen i Raddedigion, ac sy'n canolbwyntio'n gryf ar droi theori yn ymarfer, ac elfen o ddysgu seiliedig ar waith. Roedd y trafodaethau'n cynnwys cymorth i raddedigion i'w helpu i sicrhau swyddi mewn sefydliadau sector cyhoeddus ledled Cymru ar ddiwedd y rhaglen.

Ysgol Haf Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan

Un o ddiwyddiadau allweddol y tîm Talent ac Olyniaeth oedd Ysgol Haf Flynyddol Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan 2019 – y bedwaredd Ysgol Haf ar ddeg erbyn hyn. Roedd y digwyddiad hwn yn cefnogi datblygiad rheolwyr ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ac fe'i cynhaliwyd ym mis Mehefin 2019 ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan.

Thema 2019 oedd 'Her Arweinyddiaeth – o effeithlon i ragorol'. Ymhlith y prif gyflwyniadau roedd y rhai gan Dr Margaret Heffernan – 'Dallineb Bwriadol a Chyd-Ddeallusrwydd', Nazir Afzal OBE – 'Arweinyddiaeth heb Awdurdod' a Catherine Mangan – 'Arwain fel Gwas Cyhoeddus yn yr unfed ganrif ar hugain'. Roedd gwyllo'r siaradwyr yn brofiad ysbrydoledig.

Ystyriodd y gweithdai themâu fel 'MAE methiant yn opsiwn – Weithiau mae angen i chi gymryd risgiau a methu i lwyddo!' a 'Gweriniaeth Baent: Rhyddhewch eich creadigrwydd cudd – Rhowch ysgytwad i'r ffordd rydych chi'n meddwl a gadewch i arloesedd ffynnu'.

“Roeddwn i'n teimlo balchder mawr o gael fy newis i fod yn rhan o'r ysgol haf eleni a hoffwn ddiolch i'r Bwrdd Iechyd am fy ngalluogi i gymryd rhan.

Roeddwn wedi bod eisiau gwneud cais ers blynyddoedd lawer ac ar ôl bod yn aflwyddiannus y llynedd, rwy'n credu'n gryf mai fy ffawd oedd mynd eleni. Dwi wedi cyfarfod â rhai o'r bobl fwyaf ysbrydoledig gan gynnwys Margaret Heffernan, Sophie Howe; Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Nazir Afzal; y Cynghorydd Cenedlaethol ar Drais ar Sail Rhywedd gyda Llywodraeth Cymru a Myfyriwr Graddedig a ddywedodd fod fy ngharedigrwydd a'm cynhesrwydd wedi ei hysbrydoli i fod yn berson gwell.

Dwi wedi cwrdd â rhai o'r bobl fwyaf cyfeillgar, cynnes ac ysbrydoledig o bob rhan o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector o bob cwr o Gymru. Mae pobl, fel fi, sydd am ddysgu, sydd am arloesi, am groesawu newid, sydd eisiau herio popeth fel bod dinasyddion Cymru, pobl nad oes ganddynt y llais hwnnw eto efallai, yn derbyn gofal, yn cael sylw ac yn amlwg yn ein meddyliau pan fyddwn yn ein rolau proffesiynol.

Roedd hi'n siwrnai a dweud y lleiaf. Roedd yn drawsnewidiad, a dweud y gwir. Rwy'n gwybod fy mod yn berson cryfach, mwy brwdfrydig, mwy gwybodus na'r un a gyrhaeddodd fore Llun ac nid yn unig ydw i wedi gwrando ar rai o'r siaradwyr mwyaf grymus a gwybodus yn ystod yr wythnos ond dwi hefyd wedi ychwanegu'n sylweddol at fy ngharfan fach o gefnogwyr y byddaf yn eu cymryd gyda mi am byth.

Mae Academi Wales yn rhoi llawer iawn o feddwl, ymdrech ac angerdd i mewn i'r Ysgol Haf a'r canlyniad oedd wythnos o brocio'r meddwl, dysgu dwys ac ysgogi sy'n wahanol i unrhyw beth dwi wedi'i brofi o'r blaen.

Hoffwn ddweud nad ar gyfer Uwch Reolwyr yn unig y mae'r wythnos hon ond i'r bobl hynny, waeth beth fo'u rôl, sydd am wneud gwahaniaeth.

Rwy'n gobeithio y bydd llawer mwy o ddarpar arweinwyr y dyfodol yn cael y cyfleoedd dwi wedi'u cael.”

Cynrychiolydd Ysgol Haf, 2019

Penawdau'r Ysgol Haf

213 o gynrychiolwyr yn cynrychioli 86 o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus ledled Cymru.

13 o brif siaradwyr sy'n ennyn parch rhyngwladol.



Newid a Gwelliant Parhaus

Cynhaliwyd gwaith gwella prosesau o fewn tîm Cydymffurfio a GDPR Llywodraeth Cymru. Ffocws y gwaith oedd sicrhau bod y broses yn 'addas i'r diben' a'i bod yn y gallu sicrhau cydymffurfiaeth lwyri i ddiwallu anghenion y dyfodol.

Roedd y gwaith yn cynnwys ymarfer mapio manwl i gasglu'r prosesau 'cyflwr presennol' yn drwyadl i ddeall dulliau presennol a'r defnydd o adnoddau. Bu'r tîm hefyd yn casglu data prosesau ac ystadegau i'w defnyddio fel pwynt cyfeirio wrth bennu maint y gwelliannau diriaethol yn ogystal â bod yn ymwybodol o'r angen i ochel rhag niwed i enw da'r sefydliad.

Roedd trawstoriad eang o randdeiliaid yn rhan o'r prosiect hwn wrth i ni edrych ar ailgynllunio a rhoi ffyrdd cyfredol o weithio ar waith wrth gynllunio 'cyflwr y dyfodol'.

Gwobrau Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan (AWCIC) 2019

– tywynnodd yr haul eto ar gyfer Gwobrau Blynyddol AWCIC 2019 a gynhaliwyd ym Mharc Margam ym mis Mai. Defnyddiwyd pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i lywio'r broses enwebu a chyflwynodd Bonnie Navarra, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y weledigaeth.

20 gweithdy yn canolbwyntio ar brofiad, 17 o grwpiau wedi'u hwyluso, 15 o goetswyr gweithredol a 7 mentor.

Rhoddodd y siaradwr gwadd, Liz Johnson, sy'n Baralympwraig, sylwebydd yn y cyfryngau, athletwr, mentor a llysgennad cymunedol, hanes ysbrydoledig ei siwrnai ei hun o welliant parhaus er mwyn cyflawni pethau gwych.

Fel gyda blynyddoedd blaenorol, derbyniwyd nifer o enwebiadau o safon ac fe'u barnwyd gan ddefnyddio proses feirniadu dau gam. Cynhaliwyd y gwaith beirniadu gan wirfoddolwyr ac aelodau Grŵp Llywio AWCIC. Daeth y digwyddiad gwobrwyo â 90 o gynrychiolwyr ynghyd, yn cynnwys timau a gwesteion sefydliadau oedd ar y rhestr fer, a ymgasglodd i glywed am y gwaith gwella sy'n cael ei wneud ym maes gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector ledled Cymru. Rhan o ethos gwelliant parhaus yw dathlu llwyddiant.

Mae rhannu prosiectau gwella a chynhyrchu cofnod o astudiaethau achos yn gymhelliant mawr i sefydliadau eraill wella'n barhaus a rhannu eu profiadau eu hunain. Dyna pam mae Gwobrau AWCIC yn amhrisiadwy o ran cefnogi gwelliant parhaus.

Rhoddwyd gwobrau ar gyfer y canlynol: Categori, Sector a Chyfraniad Eithriadol Unigol.

Mae cyfweiliadau enillwyr a siaradwyr Gwobrau AWCIC ar gael yma:

www.youtube.com/academiwales

Gorffennaf – Medi 2019

Newid a Datblygu Arweinyddiaeth

Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog

Roeddem yn falch iawn o fod wedi nodi ein partner ar gyfer y ffrwd waith newydd unigryw a chyffrous hon. Dechreuodd Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog gyda gweithdy undydd i bobl ar lefel weithredol lle enwebwyd dau gydweithiwr i fynychu'r rhaglen fodiwlaid ddiweddarach. Diben y rhaglen yw datblygu dealltwriaeth arweinwyr o sut y gallant gyfrannu tuag at greu diwylliant cadarnhaol o ddwyieithrwydd yn eu sefydliadau fel y gall y Gymraeg ffynnu. Bydd hyn yn eu cefnogi i gyflawni eu hamcanion ar gyfer Cymraeg 2050 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ymgorffori Arweinyddiaeth

Buom yn archwilio dull newydd i arweinwyr ddatblygu sgiliau hunanhyder, hunanymwybyddiaeth, hunanreoli, cyfathrebu a dylanwadu. Mae'r dull yn dwyn ynghyd gyfuniad a disgyblaeth emosiynol, wybyddol a chorfforol crefft ymladd ac ymwybyddiaeth ofalgar.

Ar ôl ei archwilio, buom yn arbrofi gyda'r syniadau mewn gweithdy. Erbyn hyn mae cynlluniau ar y gweill i'w gynnwys ar gyfer y cyfranogwyr ar y Rhaglen Darpar Gyfarwyddwyr newydd sy'n dechrau yn 2020. Rydym yn edrych ymlaen at eu hadborth ar y profiad a fydd yn llywio'r gwaith o gynllunio a darparu rhaglenni yn y dyfodol.

Arweinyddiaeth a Datblygiad Sefydliadol

Gwobrau Arwain Cymru 2019



Roedd Academi Wales wrth ein bodd o gael ein hanrhydeddu yng Ngwobrau Arwain Cymru 2019. Seremoni eleni oedd yr olaf ar ôl 15 mlynedd o amlygu a dathlu effaith arweinyddiaeth ragorol yng Nghymru.

Cyflwynwyd y wobwr fawreddog "Ysbrydoli Arweinyddiaeth Wych" i Academi Wales i gydnabod y gwaith a wnaed i ddatblygu, meithrin a chysylltu arweinwyr yng Nghymru.

Dyma'r hyn oedd gan gonsortiw Gwobrau Arwain Cymru i'w ddweud am Academi Wales:

"Mae ein gwobr olaf un yn mynd i sefydliad. Un sy'n sicr yn gwybod pa egwyddorion y mae'n eu harddel ac sy'n bendant yn gweithredu'n unol â nhw. Maent wedi cyfrannu mwy nag unrhyw sefydliad arall at ddatblygu'r sgiliau arwain, y capasiti, y gallu a'r rhwydweithiau ar draws Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru drwy gydol y 15 mlynedd diwethaf. Dechreuasant fel Rheoli Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, gan ddatblygu i'r adran yn Llywodraeth Cymru sy'n bodoli heddiw. Ni allem orffen Gwobrau Arwain Cymru heb gydnabod ac anrhydeddu eu cyfraniad enfawr, yn y blynyddoedd a fu a heddiw, at ddatblygu, meithrin a chysylltu Arweinwyr yng Nghymru."

Hoffai Academi Wales ddiolch i Gonsortiw m Gwobrau Arwain Cymru am hyrwyddo arweinyddiaeth ragorol, sgiliau arwain a rhwydweithiau arwain a'u hamlygu ym mhob sector ac ar draws cynifer o sefydliadau yng Nghymru.

Cynhadledd Pobl a Chartrefi Shelter Cymru 2019

Digwyddodd Cynhadledd Pobl a Chartrefi Shelter Cymru eleni, a noddwyd gan Coastal Housing Group, o flaen cefndir o newidiadau cyffrous a syniadau newydd.

Rhoddodd Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, y prif anerchiad ar ei blaenoriaethau ar gyfer tai a rhoi pen ar ddiartrefedd yng Nghymru. Ymysg y pynciau trafod pwysig eraill roedd adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o anghenion blaenoriaethol, ei hymgyngoriad ar ei hymrwymiad i roi terfyn ar achosion o droi allan heb fai ac adroddiad newydd yn edrych ar ddichonoldeb hawl i gartref yng Nghyfraith Cymru.

Roedd Academi Wales wrth law i roi gwybodaeth i gynrychiolwyr y gynhadledd am fentrau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth. Ymwelodd dros 100 o gynrychiolwyr y gynhadledd â'n stondin i drafod y cymorth sydd ar gael a all eu harfogi â'r sgiliau a'r ymddygiadau sydd eu hangen arnynt i gyflawni'r newidiadau a'r heriau cyffrous sydd o'n blaenau.



Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan: Rhaglen i Raddedigion

Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan: Rhaglen i Raddedigion

Ym mis Medi, cynhaliwyd digwyddiad dathlu Cymru gyfan i nodi blwyddyn i mewn i raglen graddedigion 2018-20! Roedd dosbarth meistr rhyngweithiol ar bwysigrwydd gwranddo, dangosodd y graddedigion y prosiectau roeddent wedi bod yn gweithio arnynt a'r canlyniadau yr oeddent wedi'u cyflawni ac roedd cyfle i rannu dysgu ac arferion da.

Cymeradwyodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ail garfan o'r rhaglen i ddechrau ym mis Ionawr 2022 ac mae'r gwaith cynllunio ar gyfer hyn bellach yn mynd rhagddo.

Gwahoddwyd cynrychiolwyr i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithdai diddorol a oedd yn eu hannog i gamu allan o'u parth cysur, gan archwilio themâu fel 'Egni i Arwain', 'Balchder', 'Gwytnwch Meddyliol', 'Cymhwysio Seicoleg Gadarnhaol yn y Gwaith' a 'Deallusrwydd Emosiynol'.



Newid a Gwelliant Parhaus

Seminar 'Cyfuno Mân Lwyddiannau'

Ni ellir gwadu pa mor llwyddiannus fu tîm beicio Sky dros y blynyddoedd diwethaf. O dan Dave Brailsford, a gafodd ei fagu ger Caernarfon, mae tîm beicio Sky wedi rhagori mewn cystadlaethau. Yn ogystal, rheolodd Brailsford dîm Beicio Prydain a ddaeth i'r brig gynifer o weithiau yng Ngemau Olympaidd Beijing a Llundain. Sut y digwyddodd hyn?

Cyfeirir at y strategaeth fel 'cyfuno mân lwyddiannau,' neu 'aggregation of marginal gains,' ac mae'n datgan, o wella popeth a wnewch o 1%, y cewch gynydd sylweddol pan fyddwch yn eu rhoi i gyd at ei gilydd (dyma'r cysyniad y tu ôl i adlog hefyd) Felly sut mae nodi beth i'w wella, a sut mae mynd ati i gyflawni'r gwelliant hwnnw? Ai drwy 'brofi a methu' neu 'beth am roi cynnig ar hyn a gweld beth sy'n digwydd'?

Roedd adborth y cynrychiolwyr o'r digwyddiad hwn yn gadarnhaol dros ben. Mewn ymateb i'r cwestiwn 'beth fyddwch chi'n ei wneud yn wahanol o ganlyniad i fynychu'r digwyddiad hwn' roedd y sylwadau'n cynnwys:

- "Mynd i ystyried gwneud newidiadau a herio fy nghydweithwyr i gyd i wneud yr un peth!"
- "Meddwl yn wahanol am osod targedau a gofyn bob amser – 'beth yw'r diben?'"
- Roedd y sylwadau testun eraill yn cynnwys –
 - "Difyr iawn ac wedi procio'r meddwl" a
 - "Roedd hwn yn ddigwyddiad ardderchog. Siaradwr hollol wych"

Lansio Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gŵyl Sbarcio'r Syniad Cymru

Datblygwyd Gŵyl Sbarcio'r Syniad yn yr Alban tua phum mlynedd yn ôl, ac ers hynny mae wedi tyfu o fod yn brototeip o bum digwyddiad gyda 100 o bobl yn mynychu i 90 o ddigwyddiadau gyda thua 3,000 o bobl yn bresennol. Mae'r wyl wedi dechrau creu mudiad o amgylch arddangos ac annog creadigrwydd ac arloesedd ar gyfer newid a thrawsnewid cymdeithasol, gan alluogi pobl i fod yn rhan o raglen genedlaethol a gallu parhau i ganolbwyntio ar newid a materion lleol.

Gan weithio'n agos gyda phrofiadau ein cymheiriaid yn yr Alban a dysgu ganddynt, ailadroddwyd model Gŵyl Sbarcio'r Syniad yng Nghymru a lanswyd ein gŵyl ein hunain ym mis Ionawr 2020.



Mae ethos Gŵyl Sbarcio'r Syniad yn seiliedig ar:

- ddathlu a rhannu ffyrdd creadigol, arloesol a beiddgar sy'n cefnogi trawsnewid
- cyflwyno syniadau, dulliau, prosiectau ac arferion newydd i gyfranogwyr nad oeddent efallai wedi dod i gysylltiad â nhw o'r blaen
- defnyddio ffyrdd creadigol, gwahanol a diddorol, gan wneud y defnydd gorau o dalentau, sgiliau a diddordebau, yn y gwaith a'r tu allan i'r gwaith
- defnyddio gwahanol fannau ledled Cymru – dan do, yn yr awyr agored neu hyd yn oed ar-lein.

Hydref – Rhagfyr 2019

Newid a Datblygu Arweinyddiaeth

Rhaglen Darpar Gyfarwyddwyr

Agorwyd y broses recriwtio ar gyfer y rhaglen newydd hon ym mis Tachwedd a threfnwyd i gynnal y 'Gweithdy rhagarweiniol' ym mis Ebrill 2020. Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at y rhai yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Trydydd Sector yng Nghymru sy'n dymuno bod mewn rôl Cyfarwyddwr o fewn y ddwy flynedd nesaf. Mae'n rhaglen 16 diwrnod wedi'i gwasgaru dros 16 mis gan ddefnyddio dysgu trwy drochi, myfyrto, gweithdai ymgeisio a dosbarthiadau meistr. Gweithiodd Academi Wales gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW) i lunio'r rhestr fer o ymgeiswyr GIG Cymru. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn ymuno â chronfa dalent Cyfarwyddwr Gweithredol GIG Cymru.

Profiad Uwch Arweinyddiaeth

Cafodd carfan Gaeaf 2019 ei sesiwn Frifffio Rithwir ym mis Hydref ac ar ôl hynny roedd y cyfranogwyr yn brysur iawn yn gwahodd ac yn annog eu harfarnwyr i gwblhau'r gyfres o nodweddion seicometreg sy'n ffurfio eu hadroddiadau unigol. Derbyniodd yr ymgeiswyr eu hadroddiadau yn y Diwrnod Proffilio a Choetsio ym mis Rhagfyr.

Yn ystod y bore, cymerasant ran mewn sesiynau rhyngweithiol lle dysgon nhw beth roedd y gwahanol nodweddion seicometreg yn ei fesur a sut roedden nhw'n ffitio gyda'i gilydd i ffurfio eu proffil arweinyddiaeth. Mae'r proffil yn cynnwys nodweddion personoliaeth, dewisiadau gweithio mewn tîm, cymwyseddau emosiynol a chymdeithasol, arddulliau arwain ac yn cymharu'r hinsawdd y maent yn ei brofi o'r arweinyddiaeth uwch eu pen â'r hinsawdd y mae eu timau eu hunain yn ei brofi o'u herwydd nhw.

Yn y prynhawn roedd tri gweithgaredd lle'r oedd cyfranogwyr yn rhannu'r hyn sy'n eu gyrru a'u cymhellion, eu profiad mwyaf llwyddiannus wrth arwain a sesiwn goetsio awr o hyd i archwilio sut roeddent am fwrw ymlaen â rhywbeth a oedd o bwys iddynt ar y pryd.

Arweinyddiaeth a Datblygiad Sefydliadol

Ymwybyddiaeth Ofalgar yn Fyw



Er mwyn mynd i'r afael â'r diddordeb a'r galw cynyddol am sesiwn Ymwybyddiaeth Ofalgar gan Academi Wales, lansiodd Ymwybyddiaeth Ofalgar yn Fyw ym mis Rhagfyr 2019. Gyda'r Hwylusydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd, cyflwynwyd y sesiynau o bell i gyfranogwyr a oedd â mynediad i ystafell dawel a ffôn! Roedd y cynrychiolwyr yn cynnwys unigolion a grwpiau ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Roedd cynrychiolwyr yn gallu defnyddio'r un arferion anadlu a chorfforol, yn union fel y byddent wedi gwneud pe baent wedi mynychu ein sesiynau wyneb yn wyneb.

Roedd yr adborth yn gadarnhaol dros ben. Dyma rai sylwadau gan ein cyfranogwyr Ymwybyddiaeth Ofalgar yn Fyw:

"Rhoddodd gyfle i mi gymryd seibiant a rhesymoli"

"Wedi mwynhau'r sesiwn yn fawr; defnyddiol fel sesiwn uchelgeisiol yn ystod amser cinio gyda grŵp bach o staff"

"Roedd yn dda gallu oedi am ychydig ac ailffocysu"

Yn dilyn llwyddiant ysgubol ein sesiynau peilot, mae Ymwybyddiaeth Ofalgar yn Fyw bellach yn rhan o arlwy Academi Wales.

'Arweinyddiaeth Ddilys – y dewrder i arwain':

Ym mis Hydref 2019, croesawodd Academi Wales Dr Fiona Beddoes-Jones i gyflwyno ei Dosbarth Meistr 'Arweinyddiaeth Ddilys – y dewrder i arwain'. Cafodd y dosbarth meistr ei gyflwyno i gynulleidfa o uwch arweinwyr a swyddogion gweithredol o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

Mae arweinyddiaeth ddilys yn rhagfynegydd arwyddocaol o ran bodlonrwydd gweithwyr yn eu swydd, felly nod y Dosbarth Meistr oedd rhoi'r hyder i'r cynrychiolwyr ddeall y dilysrwydd ynddynt eu hunain ac ystyried arwain mewn ffyrdd sy'n fwyaf ystyrlon iddynt hwy eu hunain a'r bobl y maent yn eu harwain.

Ar ôl gwerthuso'r sesiwn beilot hon, bydd 'Arweinyddiaeth Ddilys – y dewrder i arwain' yn awr o ran o gyfres Dosbarthiadau Meistr Academi Wales ar gyfer 2020-2021.

Arweinyddiaeth ar Fyrddau ac wrth Lywodraethu

'Gweithdy Uwchgynhadledd 'Arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan' – Datblygu Aelodau Bwrdd a Chynghorwyr Effeithiol (Pa ganllawiau y dylem eu rhoi i arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus?)'



Hwylusodd Tîm Arweinyddiaeth Llywodraethu a Byrddau weithdy yn yr Uwchgynhadledd a gynlluniwyd i gael mewnbyn gan gynrychiolwyr ar gynnwys, fformat a strwythur adnoddau llywodraethu ac arweinyddiaeth ar fyrddau

ar gyfer cynghorwyr ac aelodau byrddau cyrff cyhoeddus ledled Cymru. Y nod yw hyrwyddo

llywodraethu da ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru a helpu aelodau byrddau i fod mor effeithiol â phosibl yn eu rolau.

Gweithdy 'Gallu Perfformiad Uchel', Heddlu De Cymru



Bu Academi Wales yn cynnal gweithdy rhyngweithiol gyda'r Uwch Dîm Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn Heddlu De Cymru. Archwiliodd a dilysodd y Tîm ei arferion arwain a busnes presennol yn erbyn nodweddion perfformiad uchel.

Beirniadodd y tîm ei berfformiad ei hun gan nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu i lywio a gwella'i gynllun cyflawni sy'n sail i weithredu ei strategaeth Pobl a Datblygiad Sefydliadol yn effeithiol.

Rhaglen Sefydlu Aelodau Bwrdd Annibynnol – GIG Cymru

Cynhaliwyd y rhaglen rhyngweithiol hon ym mis Rhagfyr 2019, ac fe'i cynlluniwyd i gynorthwyo Aelodau Annibynnol i ymateb i heriau penodol eu rôl a chyflawni'r newid i'r gwasanaeth sydd ei angen ar draws GIG Cymru a'r blaenoriaethau a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu (llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu).



Rhoddodd y digwyddiad hwn gyfle i gynrychiolwyr glywed ac ymgysylltu â siaradwyr profiadol a chydweithwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru a roddodd arweiniad ar atebolrwydd, cyfrifoldebau, polisi cenedlaethol a gofynion strategol allweddol Aelodau Annibynnol, gan gynnwys:

- Cyflwyniad i ethos, blaenoriaethau a dyheadau GIG Cymrus
- Ystyriaethau o ran ansawdd, perfformiad a chyllid
- Llywodraethu yn y GIG a rôl yr Aelod Annibynnol
- Pwysigrwydd sicrwydd a rôl y Bwrdd



Y garfan gyntaf o Aelodau Annibynnol a Hwyluswyr y Rhaglen

Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan: Rhaglen i Raddedigion

Ym mis Tachwedd, cwblhaodd y graddedigion weithdy Academi Wales '7 o Arferion Pobl Hynod Effeithiol'. Helpodd y gweithdy deuddydd hwn iddynt gymhwyso egwyddorion effeithiolrwydd er mwyn mentro, gwella cyfathrebu rhyngpersonol a chydbwysu blaenoriaethau allweddol.

Ym mis Rhagfyr, teithiodd y graddedigion i ganolbarth Cymru i fynychu ail ran modiwl addysg 'Cydweithredu a Phartneriaeth' ar gyfer eu MSc Arweinyddiaeth a Llywodraethu. Roedd graddedigion hefyd yn datblygu eu Cynigion Prosiect Ymchwil i'w cyflwyno ddechrau mis Ionawr 2020.

Rheoli Talent ac Olyniaeth

Uwchgynhadledd Arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan 2019



Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Cyflwynodd y tîm Talent ac Olyniaeth ail Uwchgynhadledd Arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan ym mis Hydref, yn Stadiwm Liberty, Abertawe.

Fe wnaeth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol agor a chloi'r gynhadledd ddeuddydd, a oedd yn canolbwyntio ar "Un Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru" a beth mae hyn yn ei olygu o ran arweinyddiaeth a newid.

Darparodd yr Uwchgynhadledd gyfle unigryw i 150 o arweinwyr a gweision cyhoeddus o 108 o sefydliadau ehangu eu gwybodaeth am arferion arwain arloesol ac archwilio ffyrdd arloesol o ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus i bobl Cymru.

Roedd y rhaglen ddeuddydd yn llwyfan gwerthfawr i arweinwyr Cymru rannu eu mewnwelediad i'r heriau y maent yn eu hwynebu, manteision datblygu dull "Un Gymru" unigryw ar gyfer dyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a'r effaith ar gymunedau a dinasyddion.

Roedd y digwyddiad hwn yn cynnwys ystod eang o siaradwyr cenedlaethol a rhyngwladol gan gynnwys Syr Paul Collier, Athro Economeg a Pholisi Cyhoeddus, Matthew Taylor, Prif Weithredwr y Gymdeithas Frenhinol ar gyfer Annog y Celfyddydau, Gweithgynhyrchu a Masnach a'r Fonesig Louise Casey DBE CB, cyn-Tsar a Chynghorydd Llywodraeth y DU.

Roedd Graddedigion hefyd yn datblygu eu gwahanol safbwyntiau i hyrwyddo trafodaeth ynghylch yr hyn sydd ar y gorwel ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Yn ogystal, cafodd arweinwyr Cymru gyfle i fynychu nifer o ddsbarthiadau meistr ac astudiaethau achos a hwyluswyd gan Penny Halliday o GIG Dumfries a Galloway, Jane Houston o swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, a Jonathan Drake o Heddlu De Cymru, sydd oll yn ymdrechu i wella'r gwasanaethau cyhoeddus.

Cynhadledd Coetsio Gogledd Cymru, 'Dimensiynau Dynol' Glasdir, Conwy, Gogledd Cymru

Gan adeiladu ar lwyddiant cynadleddau coetsio blaenorol a gynhaliwyd yng Ngogledd Cymru, ar 21 Tachwedd 2019, llwyfannodd Academi Wales ei drydedd Gynhadledd Coetsio Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru, 'Dimensiynau Dynol'. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Glasdir, Conwy ac roedd y rhai a fynychodd yn cynnwys 71 o goetswyr ffurfiol ac anffurfiol o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Canolbwyntiodd y gynhadledd ar ddatblygu sgiliau ac offer ymarferol y gellir eu defnyddio ar gyfer twf personol i gefnogi datblygiad eraill, gan helpu i adeiladu neu atgyfnerthu arferion presennol fel coetswyr neu wella eu sgiliau unigol fel rheolwyr ac arweinwyr.

Roedd y gynhadledd yn gyfle gwych i gynrychiolwyr rwydweithio a rhannu eu profiad a'u harferion da o bob rhan o Wasanaeth Cyhoeddus Cymru. Roedd y prif themâu'n cynnwys Yma, fan hyn, nawr! Persbectif Rhaglen Niwro-Ieithyddol ar bwysigrwydd amser' a sesiwn astudiaeth achos ryngweithiol 'Profiad Powys o ddatblygu goruchwyliaeth coetsio'.

Awgrymodd yr adborth fod y digwyddiad wedi bod yn llwyddiant mawr ac mae'n dechrau sefydlu'i hun fel digwyddiad proffil uchel yn nyddiadur gweithgareddau blynyddol Academi Wales.

'Roedd Sharon Rooke yn llawn gwybodaeth ac roedd yn ddiddorol iawn gwranddo arni. Byddaf yn bendant yn myfyrio ymhellach ar ei sylwadau ac yn eu cynnwys yn fy arddull coetsio fy hun.'

'Llawer o negeseuon calonogol drwy gydol y dydd, da gallu ystyried eich meddwl/teimladau eich hun fel coetsiwr, llawer o bwyntiau y gallaf eu defnyddio wrth goetsio a rheoli'n gyffredinol'

'Dysgais am amser a'r ffocws ar bwysigrwydd y presennol. Cawsom gyfle hefyd i ymarfer yr hyn a ddysgom''

Cynhadledd Coetsio Mawrth 2020

'Sicrhau Effaith'

Cyfrannwyd costau gennym ar gyfer y prif siaradwyr, gan gynnwys Erik De Haan a Christian Van Nieuwerburgh ar gyfer Cynhadledd Coetsio Cymru 2020 a gynhaliwyd gan Brifysgol De Cymru, lle dygwyd ynghyd rai o brif ymarferwyr ac academyddion y byd ym maes coetsio. Mynychodd 25 aelod o Rwydwaith Coetsio Cymru gyda lleoedd wedi'u hariannu gan fwrsariaethau.

Newid a Gwelliant Parhaus

Ymweliad Sefydliadol â Dŵr Cymru

Ymwelodd aelodau Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan â Dŵr Cymru. Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o chwe gwahanol Awdurdod Lleol, Addysg, Tân ac Achub, Iechyd, Gwirfoddol, Llywodraeth Cymru a Chyrff a Noddir, a Whitehall.

Cafodd cynrychiolwyr weld hanes Gwelliant Parhaus Dŵr Cymru a sut mae ei achrediad hyfforddi wedi datblygu. O ddiddordeb arbennig roedd cyfarfod dyddiol y tîm sy'n para uchafswm o 15 munud lle maent yn trafod statws presennol prosiectau, gan ymgasglu o amgylch byrddau gwybodaeth sy'n arddangos technegau rheoli gweledol da.

Roedd diddordeb mawr hefyd mewn casglu data, a dylid ei ddefnyddio i ddadansoddi a dangos tystiolaeth o fanylion prosiectau. Mae'r syniadau hyn wedi'u hystyried ac mae'r sefydliadau a fynychodd wedi eu nodi.

Mae enghreifftiau wedi cael eu cydblethu â hyfforddiant Gwelliant Parhaus Academi Wales i gadw'r cynnwys yn ffres gydag enghreifftiau cyfredol.

Yr Effaith ar Gynrychiolwyr

- Gweld sut mae Model Rhagoriaeth Busnes Dŵr Cymru yn cefnogi cydweithwyr drwy gwmpasu gwelliant parhaus a deall sut y gallant wella eu gwaith o ddydd i ddydd.
- Cael cipolwg ar raglen hyfforddi achrededig Dŵr Cymru.
- Deall ymagwedd Optimeiddio Ffrwd Gwerth mewnol Dŵr Cymru yng nghyswllt Gwelliant Parhaus.
- Gweld sut mae'r defnydd o Fyrddau Rheoli Gweledol wedi newid diwylliant ac ymddygiadau o fewn swyddogaethau'r gwasanaeth cymorth.

Ymweliad Sefydliadol â Bryn Pica (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf)

Roedd yr ymweliad hwn yn ddigwyddiad penodol yn canolbwyntio ar reoli gwastraff ac roedd o ddiddordeb arbennig i aelodau Awdurdodau Lleol Cymuned Gwelliant Parhaus Cymru Gyfan.

Rhodddwyd cyflwyniad i'r rhai a oedd yn bresennol i'r ffyrdd arloesol o ddefnyddio ynni gwyrdd mewn amgylchedd busnes a sut mae'r cysyniad yn bodloni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd gan gynrychiolwyr Awdurdodau Lleol ddiddordeb arbennig yn y model hwn y gallir ei ddatblygu unrhyw le yn y Wlad. Rhodddwyd cyfle hefyd i'r cynrychiolwyr fynd ar daith o amgylch Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau Bryn Pica i weld proses y safle ar waith.

Mae'r digwyddiad wedi dwyn ynghyd gynrychiolwyr y rhai sy'n delio â gwastraff ac mae wedi darparu digwyddiad rhwydweithio i drafod syniadau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys cydweithio.

Yr Effaith ar Gynrychiolwyr

- Gweld sut mae'r cysyniad yn bodloni'r holl nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Gweld economi gylchol ac ynni gwyrdd gwirioneddol yn cael eu defnyddio mewn amgylchedd busnes
- Deall sut y bydd hyn yn rhoi Cymru ar flaen y gad o ran arloesi yn y maes hwn, gan gynnal ei safle fel un o brif wledydd y byd ym maes Rheoli Gwastraff
- Gweld nad oes angen syniadau cymhleth arnoch i sicrhau arloesedd.

Cipolwg ar Athroniaeth Fusnes 'Theori Cyfyngiadau'

Cymerodd Andy Watt, gweithredwr y Theori Cyfyngiadau, gynrychiolwyr drwy gysyniadau sylfaenol y ddamcaniaeth, gyda'r ffocws ar y ffaith y gallir cynyddu llif a chynhyrchiant drwy ryddhau gallu. Canolbwyntiodd y sesiwn hanner diwrnod ar y prosesau sydd eu hangen i sicrhau canlyniadau mawr mewn ychydig o amser a thrwy ddull cam wrth gam. Gallir defnyddio'r prosesau hyn mewn amrywiaeth o leoliadau: o fusnesau gweithgynhyrchu a pheirianeg i sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Yr Effaith ar Gynrychiolwyr

- Rhodddwyd dealltwriaeth ryngweithiol ymarferol i gynrychiolwyr o'r cysyniadau drwy weithgaredd 'gêm dis' rhyngweithiol Andy lle mae'r cysyniadau sy'n gysylltiedig â llif yn dod yn llawer mwy diriaethol.
- Archwilio cysyniadau Theori Cyfyngiadau a sut y gallir eu defnyddio i wella perfformiad wrth gyflawni a lleihau amseroedd aros.
- Dysgu sut i gynyddu cyfradd llif er mwyn cynyddu cynhyrchiant a chapasiti.



Newid a Datblygu Arweinyddiaeth



Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol

Darparodd Academi Wales nifer o fodiwlau ar gyfer cyfran gyntaf Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol: rhaglen datblygu arweinyddiaeth fodiwlaidd newydd sbon a gynlluniwyd gan swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Academi Wales i feithrin sgiliau arwain aelodau iau y gwasanaethau cyhoeddus, a fydd un diwrnod yn dod yn arweinwyr cenedlaethau'r dyfodol wrth iddynt ddod drwy'r gweithlu.

Roedd 21 o gyfranogwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat. Roedd y modiwlau'n canolbwyntio ar ddeall eu hunain ac eraill, sgiliau wyneb yn wyneb a chyfathrebu a gwydnwch meddyliol.

Dosbarth Meistr – 'Sut i Gyfleu Gwirionedd i'r rhai sydd mewn Grym'

Cafodd Dosbarth Meistr olaf y gyfres am y flwyddyn ei gyflwyno gan y cyn-brif gynghorydd arbennig, Matt Greenough, a gyflwynodd y sgiliau a'r dulliau sydd eu hangen i gydweithwyr o bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus allu cyfleu'r negeseuon anodd hynny i haenau uchaf sefydliadau gyda hyder yn hytrach na'i weld fel cam sy'n cyfyngu ar eu gyrfaedd.

Hwylusodd Matt senarios amrywiol gyda'r cyfranogwyr i wella eu sgiliau a'u dulliau o ddatblygu eu presenoldeb, eu harweinyddiaeth a'u cyfathrebu gweithredol ymhellach, er mwyn eu helpu i weithredu'n fwy effeithiol ar lefel uwch o fewn a thu allan i amgylcheddau gwleidyddol.

Arweinyddiaeth a Datblygiad Sefydliadol

Hau Hadau Newydd – 'Hunanymwybyddiaeth, sgil craidd i arweinwyr llwyddiannus'

Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cyflogi miloedd o bobl. Mae pob person yn unigryw ac yn gweithio gydag unigolion unigryw eraill i ddarparu ein gwasanaethau. Mae'r ffordd rydym yn meddwl, yn teimlo ac yn ymddwyn yn cael effaith fawr ar sut rydym yn profi'r gweithle, pa mor dda rydym yn teimlo am fod yno a sut rydym yn cyfrannu ato. Nid yw'n syndod felly bod ansawdd ein perthnasau gwaith yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael.

O weithio gyda'n gilydd y gorau y gallwn, y gorau a'r mwyaf diogel y bydd y gwasanaethau a ddarperir. Beth allwn ni ei wneud i wneud profiad y gweithle yn un cadarnhaol iawn i ni ein hunain ac eraill? Beth fydd yn ein helpu i berfformio ar ein gorau, llwyddo o dan amodau heriol a galluogi eraill i wneud yr un peth. I ddod o hyd i rai o'r atebion i'r cwestiynau hyn, rhaid inni adnabod ein hunain yn gyntaf a deall yr effaith a gawn

Mae'r rhifyn hwn o Hau Hadau yn rhoi trosolwg o'r hyn y mae hunanymwybyddiaeth yn ei olygu, pam mae'n bwysig, pam efallai nad ydym mor hunanymwybodol ag sydd angen bod a beth y gellir ei wneud i ddatblygu ein hunanymwybyddiaeth fel arweinwyr.

Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu model newydd o arweinyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus i Gymru, Un Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru, dechreuodd Academi Wales ar y fenter 'Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog', gyda gweithdy undydd i roi prawf o gysyniad, cyn cynnal rhaglen fodiwlaid yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar gyfer arweinwyr mewn sefydliadau.

Archwiliodd y gweithdy undydd a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2020 gydag Uwch Arweinwyr Lefel Bwrdd sut beth fyddai dod yn llysgennad dros ddiwylliant arweinyddiaeth sefydliadol lle gall y Gymraeg ffynnu (yn unol â strategaeth Gymraeg 2050 Llywodraeth Cymru).

Cafodd cyfranogwyr gyfle i ddysgu am y sefyllfa ieithyddol bresennol yng Nghymru, ac i archwilio eu syniadau a'u meddyliau eu hunain am ddwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg. Gan ddefnyddio eu profiadau eu hunain a phrofiadau cyfranogwyr eraill, amlygwyd y manteision a'r heriau posibl a allai godi wrth geisio datblygu diwylliant cadarnhaol o ddwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg yn eu sefydliad drwy ganolbwyntio ar:

- Nodweddion ymddygiadau arweinyddiaeth sydd eu hangen i ddangos ymroddiad i ddwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg o fewn sefydliadau
- Sut mae unrhyw wahaniaethau diwylliannol Cymraeg-Saesneg yn effeithio ar gyfathrebu
- Rhinweddau arwain personol sydd eu hangen i gyfathrebu'n effeithiol mewn amgylchedd Cymraeg-Saesneg
- Datblygu arferion gorau a strategaethau ymarferol ar gyfer cyfathrebu effeithiol mewn timau Cymraeg-Saesneg mewn sefydliadau

Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan: Rhaglen i Raddedigion

Gyda'r graddedigion presennol yn nesáu at ddiwedd eu hamser ar y Rhaglen i Raddedigion, roeddem o'r farn y byddai hwn yn amser gwych i edrych yn ôl a myfyrio ar yr hyn y mae'r graddedigion wedi'i brofi ar eu taith.

Bydd pob Graddedig wedi cael dealltwriaeth o weithio o fewn Un Gwasanaeth Cyhoeddus i Gymru a chroesawu ei werthoedd, gan gymryd y sgiliau y maent yn eu dysgu ar hyd y ffordd i'w lleoliad nesaf ac yn y blaen. Mae'r Graddedigion wedi bod yn cefnogi'r ymateb COVID-19 yn rhagweithiol ac wedi adleoli'n gyflym i feysydd blaenoriaeth newydd, gan ddefnyddio'r sgiliau y maent wedi'u datblygu drwy'r rhaglen. Mae dull 'Cymru Gyfan' y rhaglen wedi bod yn gyfle prin i weithio ar draws ffiniau sefydliadol, rhywbeth a fydd yn paratoi'r graddedigion ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

Rheoli Talent ac Olyniaeth



Ysgol Aef Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan

Darparodd y tîm Talent ac Olyniaeth y nawfed Ysgol Aef Arweinyddiaeth Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Gyfan ddechrau mis Chwefror 2020. Y thema eleni oedd 'Arwain i Bawb – Creu Diwylliannau a Hinsoddau'.

Darparodd y cwrs preswyl pedair noson yn Nant Gwrtheyrn gyfle i 40 o Arweinwyr Cymru o haen uchaf arweinyddiaeth o fewn gwasanaeth cyhoeddus a sector gwirfoddol Cymru, adolygu a gloywi eu sgiliau presennol a chael cipolwg ar arferion arwain arloesol.

Ymhlith y siaradwyr roedd Gemma Morgan, Jonathan Stebbings o Olivier Mythodrama, Fons Trompenaars, Thimon de Jong a Margaret Heffernan, a rhoesant i gyd gyfle unigryw i arweinwyr archwilio ffyrdd arloesol o 'gyflawni'r busnes', gan ddefnyddio cyfoeth o wybodaeth a phrofiad bydol.

Newid a Gwelliant Parhaus

Sbarcio'r Syniad Cymru

Lansiwyd Sbarcio'r Syniad Cymru ym mis Tachwedd 2019. Cynlluniwyd Sbarcio'r Syniad Cymru i ddod ag ethos Sbarcio'r Syniad (a ddechreuodd yn yr Alban) i Gymru, i ddathlu'r gwahanol ffyrdd creadigol ac arloesol yr ydym i gyd yn cyfrannu at greu Cymru yr ydym am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

Cynhaliwyd Gŵyl gyntaf erioed Sbarcio'r Syniad Cymru ym mis Ionawr a mis Chwefror 2020. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau gan gymunedau ynghyd â phartneriaid a chydweithwyr o bob rhan o wasanaethau'r sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a'r sector preifat yng Nghymru.

Cynhaliwyd 30 o ddigwyddiadau ledled Cymru yn ystod yr ŵyl, gan gysylltu pobl, syniadau newydd a syniadau arloesol gyda'r nod o gynnu tanau i greu newid.

Dywedodd Tony Mizen, Pennaeth Newid a Gwelliant Parhaus Academi Wales:

"Diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran yng Ngŵyl gyntaf erioed Sbarcio'r Syniad! Rydym wrth ein boddau gyda nifer y digwyddiadau a gyflwynwyd. Roedd gennym darged cychwynnol o 5 i 6 digwyddiad, ond cawsom gyfanswm o 30 yn y pen draw! Roeddem yn arbennig o falch o weld amrywiaeth pynciau'r digwyddiadau a dosbarthiad daearyddol eang lleoliadau'r digwyddiadau, gan greu ysbryd 'Cymru Gyfan' go iawn."

Digwyddiad Gwelliant Parhaus 'hyfforddi'r hyfforddwr'

Ddechrau mis Chwefror 2020 yn Elan Valley Lodge, cyflwynwyd Hyfforddi'r Hyfforddwr ar gyfer ein cwrs deuddydd byr, Cefnogi Gwelliant Parhaus, i Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Caerfyrddin a Phrifysgol Aberystwyth.

Dros y ddau ddiwrnod, ymgysylltodd y cynrychiolwyr â'r cwrs rhyngweithiol hwn a'i syniadau allweddol, gan drafod y gweithgareddau hyfforddi ac ymarfer eu dulliau cyflawni.

Bydd y rhaglen hon yn galluogi sefydliadau i gynyddu nifer y staff a chanddynt fynediad at wybodaeth, sgil a phrofiad gwelliant parhaus ynghyd â'r gallu i ddarparu hyfforddiant Gwelliant Parhaus lleol.